**MEMORANDWM ESBONIADOL ar gyfer**

**Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Darpariaethau Canlyniadol) 2016**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i cyflwynir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru Education mewn cysylltiad â'r is-ddeddfwriaeth a enwir uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o'r effaith y disgwylir i'r Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Darpariaethau Canlyniadol) 2016 ei chael.

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

23 Chwefror 2016

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Darpariaethau Canlyniadol) 2016 yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("*Deddf 2006*") i ddileu'r dyletswyddau sydd ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u Cynllun Iaith Gymraeg.

## 2. Materion o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

2.1 Nid oes materion o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol eu nodi.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 78 o Ddeddf 2006 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â diwygio a chyhoeddi'r cynllun.

3.2 Mae adran 144(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("*y Mesur*") yn darparu nad yw Rhan 2 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (dyletswydd cyrff cyhoeddus i gael Cynllun Iaith Gymraeg) yn gymwys unwaith bod person o dan ddyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r Mesur yn dileu'r ddyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2006 i gael Cynllun Iaith Gymraeg. Pwrpas y Gorchymyn hwn yw gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2006 i ymateb i'r ffaith y bydd rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â safonau'r Gymraeg o 31 Mawrth 2016 ymlaen.

3.3 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno Hysbysiad Cydymffurfio i Weinidogion Cymru o dan adran 44 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg o 31 Mawrth 2016 ymlaen.

3.4 Mae adran 154 o'r Mesur yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud, drwy orchymyn, unrhyw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ganlyniadol, a darpariaethau eraill, fel y maent yn ystyried yn angenrheidiol neu'n briodol mewn cysylltiad â'r Mesur, neu er mwyn rhoi effaith lawn i'r Mesur. Caiff y Gorchymyn hwn ei wneud o dan adran 154 o'r Mesur.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

### Diben

4.1 Diben y Gorchymyn hwn yw sicrhau nad oes dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gael Cynllun Iaith Gymraeg ar ôl 31 Mawrth 2016 gan y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg o'r dyddiad hwn ymlaen.

**Effaith**

4.2 Mae’r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiad canlyniadol i adran 78 a pharagraff 48 o Atodlen 11 i Ddeddf 2006 er mwyn hepgor cyfeiriadau at Gynllun Iaith Gymraeg Gweinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â Safonau’r Gymraeg o 31 March 2016 ymlaen, sef y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad cydymffurfio. O ganlyniad i hyn, ystyrir nad yw’n briodol i Weinidogion Cymru barhau i fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg.

**Y risgiau os na wneir y newidiadau deddfwriaethol hyn**

4.3 Os na chaiff y Gorchymyn hwn ei wneud, byddai Gweinidogion Cymru, ar ôl 31 Mawrth 2016, yn parhau i fod o dan ddyletswydd i gael Cynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, er y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â Safonau’r Gymraeg. Nid oes diben cael Cynllun Iaith Gymraeg ar ôl y dyddiad hwn.

**5. Ymgynghori**

5.1 Nid yw Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ar y Gorchymyn, gan mai diwygiadau canlyniadol a wneir ganddo a chan nad yw’n rhoi dyletswydd ar unrhyw gorff.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1 Ystyrir nad oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn cysylltiad â Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Darpariaethau Canlyniadol) 2016 gan nad yw’n gosod costau uniongyrchol.